# YR YMOFYNYDD.

**Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.**

*"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.*

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1902. [CYF. II. RHIF 4.

## PLEIDWYR CYNYDD MEWN CREFYDD.

ROWLAND WILLIAMS, D.D.,

GAN Y PARCH. E. GWILYM EVANS, B.A., (OXON.), CHESTERFIELD.

[PARHAD.]

### LLANBEDR YN 1850.

HAWDD yw mesur pwysigrwydd tref Llanbedr yn y flwyddyn 1850—blwyddyn dyfodiad Rowland Williams i'r Coleg—oddiwrth y ffaith hynod a adroddir gan ei wraig, na feddai tref Pont-Stephan, yr adeg hyny, gymaint ag un siop gigydd. Ond os prin y cig, yr oedd cyflenwad y cwrw yn ddihysbydd, canys nid oedd lai na deunaw o dafarndai yn y pentref. Nid yr un yw Llanbedr heddyw ag ydoedd haner can' mlynedd yn ol. Heol-y-Bont, Heol-y-Coleg, Heol-yr-Orsaf, nid oedd un o honynt i'w cael yn 1850; mae'r pentref bellach wedi tyfu yn dref brydferth. Eithr nid i adeiladu tai nac i agor siop gig, yr ymsefydlodd Rowland Williams yn Llanbedr, ond i gyfnewid cymeriad meddyliol a moesol Coleg Dewi Sant, er ei wneuthur yn feithrinfa deilwng i offeiriaid Eglwys Sefydledig Cymru. "Mae gwaith gofidus yn eich haros," meddai rhagflaenor Rowland Williams wrtho. Diffyg arian a diffyg adgyflenwad o fyfyrwyr diwylliedig achosai i'r Coleg fod mewn trafferth parhaus. Ewyllysiai Williams godi safon yr arholiadau,* ond buan canfyddodd beth fyddai'r canlyniad, sef, gwrthod mynediad i'r Coleg i fwyafrif mawr o'r ymgeiswyr, gan mai dynion mewn oedran, amaethwyr aflwyddianus, gofiaid Efengylaidd, a phregethwyr gwrthodedig Ymneillduaeth oedd y

* "Ni fedrant," meddai R. W. am ei fyfyrwyr, "ysgrifenu Cymraeg na siarad Saesonaeg."

cyfryw, fel rheol, heb fawr addysg na chynheddfau meddyliol. Tasc Rowland Williams a'i gyd-athrawon oedd gwneuthur pridd-lechau, nid *heb* wellt, mae'n wir, fel yr Israeliaid gynt, ond *o* wellt a brwyn garw bryniau Cymru. Nid llawer gwell oedd cyflwr yr Eglwys yn Nghymru yr adeg hono. Oes ddedwydd yr heliwr cysegredig ydoedd, ac yn ngolwg yr offeiriaid plwyfol yn gyffredin, 'roedd hela'r cadno a saethu petris yn alwedigaeth mor bwysig a llawer mwy dymunol na phregethu'r Efengyl a gweinyddu'r ordinhadau. Dywed Rowland Williams y stori ganlynol am un offeiriad yn Sir Aberteifi; darlun gofidus ydyw o gyflwr yr offeiriadaeth haner can' mlynedd yn ol.

### Stori'r Gyllell Boced.

Yn ardal Aberystwyth trigai offeiriad mewn mawr esmwythyd, ac er nad oedd dan ei ofal ond un eglwys, ni arferai flino ei blwyfolion a gwasanaeth bore Sul. Yn y gwasanaeth hwyrol ar ryw Sul yn mis Medi, aeth R. W. i'r Eglwys, a chymerodd ran yn y gwasanaeth. Sul cymundeb ydoedd, ac fe frawychwyd R. W. gan ymarweddiad ei frawd Lefiticaidd yn ei weinyddiad o'r Sacrament. Arwyddwyd corff y Gwaredwr, "a dorwyd drosot ti," ar yr achlysur, gan delpyn dilun o fara sych. Heb radd o gywilydd, aeth y Philistiad cysegredig, yn ol ei arfer, i boced ei lodrau, a thynodd allan gyllell o faintioli cyllell gwas mawr ar fferm, a thorodd ei fara sanctaidd fel y torai gwlff o ddonen caws er ei daflu i'w gi. Bu R. W. bron syrthio mewn llewyg wrth ei wel'd, a chywilyddiai dros eglwys ei dadau.

Breuddwyd hoff R. W., pan y daeth i Lanbedr, fel cenhadwr ymhlith paganiaid, oedd gwneuthur bodolaeth offeiriad tebyg i'r uchod yn beth amhosibl yn y dyfodol. Er gwaethaf pob rhwystr, sylweddolodd ei benderfyniad i godi safon addysg Coleg Dewi Sant; gosododd faterion arianol y Coleg mewn trefn am y tro cyntaf, a gwnaeth ffordd y myfyriwr tlawd drwy'r Coleg mor rhwydd ag oedd bosibl. Tu allan i'r Coleg, fel tu fewn, yr oedd R. W. yn llawn serchogrwydd i bawb. Ei hoff bleser oedd myned drwy yr ardal bob prydnawn ar gefn ceffyl gwyllt o'r enw Ffelix, ac ymgomio yma ac acw a rhyw dorwr ceryg, yn iaith ei fam. Carai olygfeydd Llanbedr a chariad cynhes, yn ormodol, efallai, canys dywed fod dyffryn Teifi yn fwy prydferth na dyffryn Aeron. Hon yw heresi gyntaf a mwyaf anfaddeuol Rowland Williams.

### Y Cwmwl Cyntaf.

Er gwaethaf llwyddiant anarferol Rowland Williams fel athraw, ysgolor a duwinydd yn Ngholeg Dewi Sant, ni bu yno'n hir cyn i'w athrylith grefyddol, wedi ei gwisgo mewn gwirioneddau newydd, danio eiddigedd ac anwybodaeth ei Eglwys yn ei erbyn. Yr hyn a ddywedodd prophwyd arall, Theodore Parker, am dano ei hun, sydd dragwyddol wir am holl "bleidwyr cynydd mewn crefydd," ac yn eu plith Rowland Williams,—"I see before my race an age or so; and

I am sent for the stern work, to hew a path among the thorns. Men shall, in better times, stand where I fell." Yn mis Mai, 1855, cyhoeddodd Rowland Williams gyfrol o bregethau dan yr enw, *Duwioldeb Rhesymol.* Ymosodwyd ar y llyfr gan holl bapurau'r Eglwys, a dihunodd offeiriaid cysglyd Deheudir Cymru i ddifenwi ffrwyth llafur duwinydd goreu eu gwlad. Rhyfedd yw sel anwybodaeth gynddeiriog; mae yn ffaith anwadadwy fod yn mhlith y doethion offeiriadol a ymosodent ar lyfr R. W. luaws o ragrithwyr heb erioed ei ddarllen. Tebyg ydyw fod eu barn *cyn* darllen *Duwioldeb Rhesymol* gymaint o werth a phe buasent *wedi* ei ddarllen. Dedfryd yr Eglwys ydoedd fod Rowland Williams, Is-Brifathraw Coleg Dewi Sant, Llanbedr, yn *heretic* peryglus, a gollyngwyd yn rhydd wrth ei sodlau waedgwn uffernol erledigaeth a chulni. Fel Pilat gynt, taflodd Dr. Ollivant (Esgob Llandav) Rowland Williams i drugaredd cynddaredd y *mob.* Galwodd ar R. W. i roi fyny ei swydd o Gaplan i'w arglwydd. Ai i ddangos mai nid priodol yw perthynas agos rhwng Esgobion a gwybodaeth? Yn lle enill iddo Esgobaeth Gymreig, fel y dylasai wneuthur, collodd cyhoeddiad ei lyfr i R. W. ei holl obeithion o esgyn i gadair Esgobol. Ond eiddo Rowland Williams ydyw yr anrhydedd rhagorach o awduriaeth *Duwioldeb Rhesymol.* Mae Coleg Dewi Sant wedi magu llawer Esgob, (nid yw gofynion y swydd, efallai, yn uchel iawn), eithr ni fagodd ond un Rowland Williams.

### Demas a'm Gadawodd.

Yn nghanol yr ystorm, prif gysur allanol R. W, oedd ei ffydd yn ei Esgob—Dr. Thirlwall, Tyddewi. Yr oedd hwn yn ysgolor gwych, ac fel ein harwr, yn coleddu syniadau rhyddfrydig mewn Duwinyddiaeth. Ni allesid disgwyl iddo ef i roddi clust i gwynion offeiriaid ei esgobaeth. Er hyrwyddo cwrs a chynydd gwirionedd a rhyddid barn, sut y gallasai Thirlwall lai na chynorthwyo Rowland Williams yn ei adfyd? Ond fel arall y bu, Demas a'i gadawodd, gan garu y byd presenol; aeth yr Esgob gyda'r llif poblogaidd, ac ysgrifenodd at R. W. gan ei anog i ymadael a Llanbedr er lles y Coleg. Pa ryfedd i R. W. ysgrifenu y geiriau chwerw hyn yn ei awr dywyll: "Prudd ac unig ydwyf yn awr, yn trigo mewn congl ddistadl o wlad farbaraidd, heb neb i gydymdeimlo a mi." Bu R. W. yn ddigon dewr i daflu o'r neilldu awgrymiad llwfr yr Esgob, a phenderfynodd aros yn Llanbedr. Trwy'r cwbl oll, ni chollodd gwrthrych ein sylw gariad ac edmygedd ei efrydwyr. Ar ei ddychweliad o Caergrawnt, wedi ei anrhydeddu a'r teitl o D.D., cafodd roesawiad brwdfrydig gan fyfyrwyr Coleg Dewi Sant. Llusgwyd ef trwy y dref yn swn y clych a thwrf y bobl. Mor felus ydyw meddwl fod gwrthodedig Esgobion llwfr ac Offeiriaid anwybodus yn anwyl i'w ddisgyblion yn Llanbedr ac i'w gyfeillion yn Nghaergrawnt.

I'W BARHAU.

# CAPEL PANTDEFAID.

## III. Adeiladu'r Capel Cyntaf, &c.

Gan y Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park.

---

SAIF y capel hwn ryw ddwy filltir a haner, fwy neu lai, i'r gogledd neu ogledd-ddwyrain o Llandyssul, lle mae y brif ffordd sydd yn arwain o'r dref hon i Ceinewydd yn croesi y brif ffordd sydd yn arwain o Aberteifi i Lanbedr. Adeiladwyd y capel cyntaf o'r enw yn y flwyddyn 1802, ar ddarn bychan o dir yn perthyn i fferm Cwmmarch, eiddo'r boneddwr John Jones, Pantdefaid, mab Jenkin Jones, Llwynrhydowen, yn ol yr hanes cyffredin. Y mae ysgrifenydd y llinellau hyn, er nad oedd ond ifanc ar y pryd, yn cofio rhyw ychydig am y capel, ond yn gallu ysgrifenu mwy nag y mae yn wybod yn bersonol ar dystiolaeth ei rieni ac ereill mewn amser diweddarach, y rhai a arferent fynychu'r addoliad yno. Adeilad cymharol fychan ydoedd, anghelfydd a diolwg, fel y rhan amlaf o addoldai yr Ymneillduwyr yr amser hwnw. Yr oedd ynddo beth a elwid yn bwlpud, wrth gwrs, y fath, feddyliwn, ag a welid yn hen gapel y Ciliau hyd yn ddiweddar, a'r fath ag a welir yn bresenol yn Penrhiw, Sir Gaer, ac o bosibl, mewn ychydig fanau ereill—ond pwlpudau y bu gweinidogion galluog ac enwog yn pregethu ynddynt. Byddai braidd yn ddiraddiad i weinidogion dysgedig a pharchus y dyddiau presenol i orfod esgyn grisiau pwlpudoedd cyffelyb. Ar y llawr—llawr pridd fel yr oedd y lloriau yn gyffredin yn yr hen amser—yr oedd ychydig sgiwiau a ffwrwmau, ac ar rai o honynt enwau y perchenogion, neu yn hytrach, lythyrenau cyntaf yr enwau, yn nghyd a'r flwyddyn, wedi eu cerfio gan law anghyfarwydd. Er myned i'r oriel neu'r llofft yr oedd yn rhaid esgyn y grisiau ceryg tu allan, wrth dalcen y tŷ, yn debyg fel yr eir i daflod wair neu ystordy ambell i fferm ; ond wedi myned i mewn yr oedd pob peth ar y llofft fel ar y llawr yn ddigon cyfleus i bawb awyddus i wrandaw ac addoli heb ddim ond hyny mewn bwriad. Dywed llawer fod swynion celfyddyd a chwaeth mewn adeiladaeth yn chwanegu yn fawr at ddwyster a difrifoldeb yr addoliad. Gobeithiwn fod mwy o wirionedd yn hyn na balchder.

Pantdefaid a Chapelygroes, yn ol tystiolaeth un o'r sylfaenwyr, sef Dr. Charles Lloyd, mab y Parch. David Lloyd, Brynllefrith, oeddent y capeli cyntaf yn Ngheredigion, os nid yn Neheudir Cymru, a adeiladwyd er mwyn yr achos Undodaidd, yn *addefedig* felly. Yn mhen rhyw bum mlynedd ar ol adeiladu Pantdefaid, cafwyd lês arno gan y meistr tir, ac ar ychydig latheni o dir tu allan i'r muriau, yn nghyd ag ar y stabal gyferbyn, ar yr ochr arall i'r ffordd, am 99 o flynyddau, ac am swllt y flwyddyn o *rent*. Dyddiad y lês oedd Ionawr 16, 1807. Yn mhlith yr amodau i'w cadw gan Ymddiriedolwyr y gynulleidfa,

un oedd, nad oedd yr adeilad i gael ei ddefnyddio ond fel lle i ddynion gael cyfarfod a'u gilydd i "addoli Duw mewn modd cyhoeddus. a hyny yn y ffordd arferedig gan Ymneillduwyr Protestanaidd, fel y byddai mwyafrif y gynulleidfa mewn cymundeb yn penderfynu."

Yr Ymddiriedolwyr yn y lês oeddent: 1. John Enoch, Pantstrymon, gwraig yr hwn oedd Margaret, chwaer Dr. Charles Lloyd, a mamgu o du ei dad, sef Richard Lloyd Jones, i'r presenol Jenkin Lloyd Jones, gweinidog yr Undodiaid yn Chicago, a phrif Olygydd yr



*Parch. John James, Gweinidog Pantdefaid, 1803 —1816, wedi hyny o Gellionen.*

*Unity*. 2. John James, Lloydjack, Ystrad, a gweinidog Pantdefaid a Chapelygroes, ar y pryd, ond wedi hyny, Gellionen. 3. William Lloyd, Pontgareg, tad y diweddar John Lloyd, Gwarllwynoidos, a thadcu y presenol Mrs. Thomas, Gwion Castle. 4. David James, Efailfach, mab James Griffiths, Penwern, yr hwn a fu farw yn 1800, yn 65 oed. Yr oedd hwn, sef yr olaf, yn dad i wyth o blant, ond yr hyn sydd yn hynod yw, o lawer o wyrion, John James, Gelligron, yw yr unig un sydd heddyw ar dir y byw. 5. David Evans, Esger-

ddedwydd. Gorwyres iddo yw Mrs. John Thomas, Frondole, Ceinewydd. 6. Thomas James, Penwern, ffermwr. Gorwyr iddo yw y presenol John Thomas, Gwarcoedisaf. 7. John Rees, Gwarcwm, saer. Yr oedd yr oll o'r Ymddiriedolwyr yn Undodiaid brwdfrydig, ac y mae y rhan amlaf o'u heppil yn para yn yr un ffydd.

Pan cafwyd lês ar y Ty Cwrdd, nid oedd dim tir claddu wedi ei roddi na'i geisio chwaith, os yn wir y meddyliwyd am y fath beth o gwbl; neu os meddyliwyd, efallai fod llwyddiant yr achos yn y lle yn fater amheus, gan gymaint y gwrthwynebiad oedd iddo, a chan lleied oedd nifer ei noddwyr; ac yna, os methiant fyddai'r canlyniad, na fyddai tir claddu o un diben. Dangoseg o deimlad rhy gyffredin ar y pryd a geir yn y penill sarhaus canlynol o eiddo rhyw rimynwr rhagfarnllyd wrth ddyfod heibio'r capel yn nghwmni John Jones, (Ioan Triphlyg), Penrhiwrhod, yr hwn oedd Undodwr, ac yn briod a modryb i'r diweddar Peter Joseph; yn debyg fod ambell i flewyn glas yn tyfu tu allan i'r pyrth:

"Shoni bach o Benrhiwrhod,
Onid yw e'r peth rhyfedda erio'd,
Gweled porfa'n tyfu'n las
Yn groes i ddrws Efengyl Gras."

Atebwyd yn debyg fel y canlyn gan y parod Ioan Triphlyg:

"Y llwybr *cul** yw hwn, fy ffrynd,
*Ychydig* sydd ar hyd-ddo'n myn'd;
Ond ffordd y *llawer*, cofia was,
Ni thyf ar hono borfa las."

Yn mhen blynyddau o sel ac ymdrech ychydig o ffyddloniaid, a than weinidogaeth alluog ac effeithiol John James, yn cael ei gynorthwyo yn achlysurol gan y Cristion pur a'r lleygwr parchus a phoblogaidd, David Jenkin Rees, ac yn ddiweddarach dan weinidogaeth y galluog John Thomas, gwelwyd fod yr achos bychan yn myned rhag ei flaen yn raddol, a bod ei ddyfodol yn dra addawol. Meddyliodd rhai o'r cyfeillion bellach y byddai cael ychydig dir claddu yn dra dymunol, ond pa fodd i'w gael oedd y pwnc. Mae'r hanes fel y canlyn:

Yr oedd dysgwyliad, os nid sicrwydd trwy ddealltwriaeth ddirgelaidd, y byddai stâd Pantdefaid, o'r hon yr oedd ffarm Cwmmarch yn rhan, i fyned yn eiddo David Thomas, Llanfair, ar ol marwolaeth John Jones. I'r David Thomas hwn yr oedd brawd o'r enw Thomas Thomas, dyn cymharol ieuanc a chrefyddol, ac un a ddygai fawr sel dros yr achos yn Pantdefaid, yr hwn oedd hefyd wedi ymbarotoi gyferbyn a myned i'r weinidogaeth, ond a fu farw o'r darfodedigaeth Awst 24, 1818, yn 29 oed. Ychydig amser cyn ei farwolaeth yr

---

* Matt. vii, 13, 14.

oedd wedi gwneuthur ei ewyllys, yn yr hon, yn mhlith pethau eraill, yr oedd yn gorchymyn cael ei gladdu dan y bwrdd cymundeb yn nghapel Pantdefaid, a chafodd ei ddymuniad. Bu John Jones, perchen y stad farw Chwefror 17, 1821, yn 84 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y plwyf, a David Thomas, Llanfair fu ei etifedd, fel yr oeddid wedi darogan. Yn fuan ar ol Thomas Thomas, y cyntaf a gladdwyd yn Pantdefaid, cymerodd amryw gladdedigaethau le, mewn ac allan. Gwyddis yn sicr i'r personau canlynol gael eu claddu tu fewn, sef, John Jones, Tiler, Blaenwaun, ger Llwynrhydowen; David Jones, Pentre, Rhydowen; Henry Lloyd, Gwaralltyryn, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin; James Lloyd, ei frawd; John Jones, unig fab Amnon, sef Rees Jones, Pwllffine, awdwr *Crwth Dyffryn Clettwr*. Dichon fod y nifer yn rhagor.

Ail adeiladwyd y capel yn 1836, a chyda mwy o chwaeth a chelfyddyd nag a ddangoswyd yn yr adeilad cyntaf. Yr oedd y gynulleidfa erbyn hyn, er ddim yn lluosog na chyfoethog chwaith, yn dra gobeithiol gyda golwg ar ddyfodol yr achos, ond yr oedd cwyno parhaus oherwydd diffyg mynwent. O'r diwedd tosturiodd y gwr boneddig o Lanfair wrthynt, (yr oedd yn cofio fod ei frawd wedi cael ei gladdu yno), a rhoddodd dir i'r pwrpas, ond llai nag a chwenychent gael. Yr wyf yn cael yr *entry* ganlynol yn nyddlyfr y gweinidog ar y pryd, sef, John Thomas, "Gorphenaf 13, 1837. Evan, mab Dafydd Shon Crydd a gladdwyd yn Pantdefaid mewn tir ffres (*new ground*)." Ni sicrhawyd meddiant o'r tir mewn lês yn uniongyrchol pan ei cafwyd, a hyny gydag amcan pellach, fel y gwelir nes yn mlaen.

Yr oedd Mrs. Thomas, gwraig David Thomas, o Lanfair, yn foneddiges ragorol iawn yn mhob ystyr braidd. Yr oedd o anian wir grefyddol, yn ei daliadau duwinyddol yn Undodwraig bur, ac hyd y gallai, ac yr oedd ei gallu yn fawr hefyd,—yr oedd yn awyddus i wneud pob peth a fyddai yn debyg o fod yn fanteisiol i lwyddiant yr achos yn Pantdefaid. Yn y cysylltiad hwn yr oedd Mrs. Thomas, fel y clywais ddywedyd, wedi cynghori rhai o flaenoriaid y lle yn gyfrinachol—Amnon yn eu plith—i beidio bod yn rhy frysiog am lês ar y tir claddu a gafwyd eisioes—ei fod lawer yn rhy fach, ac y gwnai hi ei goreu i ddylanwadu ar ei phriod i roi yr oll oedd yn weddill o'r cae yn yr hwn y safai y capel, i gael ei gymeryd i mewn, wrth gwrs, fel y byddai angen am dano. Llwyddodd, nid yn unig i gael yr oll o'r tir oedd hi'n geisio at fynwent, ond hefyd addewid am lês arno, ac ar y capel a'r stabal dros yr amser hir o 999 o flynyddau, a hyny am ddau swllt y flwyddyn o rent. Wrth reswm yr oedd y lês a gafwyd gyntaf am 99 i gael ei rhoi i fyny.

Yn anffortunus, bu David Thomas farw yn ddisyfyd yn Llanwrtyd, Awst 1, 1845, yn 61 oed, cyn cael yr addewid i gyflawniad, a chladdwyd ef yn ochr ei frawd, Thomas Thomas, dan y bwrdd cymundeb; (cystal yw dweyd yn y fan hon i fedd Mrs. Thomas gael ei dori yr un amser ag y torwyd bedd ei phriod, ac yn gyfochr, fel y byddai yn barod erbyn yr amser y byddai ei eisiau; ond ni bu hyn am un-ar-

ddeg-ar-hugain o flynyddau yn ddiweddarach). Pan ddaeth Thomas Thomas i feddiant fel etifedd, bu dylanwad y fam mor effeithiol ar y mab ag y bu ar y tad. Yr hanes i'w orphen yn y nesaf.

---

## Y BEIBL: YR HEN A'R NEWYDD.

### II.—Y Pum' Llyfr Cyntaf.

Er y cyntaf yn ein Beibl ni, eto nid y cyntaf o ran amser eu cyfansoddiad. Ysgrifenwydrhanau ohonynt yn foreu iawn, ond mae rhanau ereill yn ddiweddar; ac ni ddaethant i'w ffurf bresenol hyd o fewn i'r 5ed neu'r 4edd ganrif cyn Crist. Adnabyddir y llyfrau hyn fel "Y Gyfraith"; ond nis gall y darllenydd lai na sylwi fod y rhan fwyaf o'u cynwys yn hanes, a dichon y gofyniad ddod i'w feddwl, pam y gelwid hwy wrth yr enw hwn? Yr unig reswm dros hyn oedd mai ynddynt hwy y ceid y gyfraith a dybid oedd wedi cael ei rhoddi gan yr Arglwydd i genedl Israel.

#### Byr-Grynodeb o'u cynwys.

Ystyrid Genesis fel math o rag-arweiniad i hanes y genedl; a dyry (yn mhlith pethau ereill) ddesgrifiad o ddull y cread ac o'r modd y daeth pechod i'r byd, hanes boreu yr hil ddynol, tarddiad cenedl Israel, ei hachyddiaeth yn ol trwy Jacob, Isaac ac Abraham hyd y dyn cyntaf Adda, y cyfamod rhwng Duw ag Abraham, a'r symudiad i'r Aifft. Dyry Exodus hanes ymadawiad Israel o'r Aifft dan arweiniad Moses, a'r modd y derbyniodd Moses y deg gair deddf ar Sinai. Yn y gweddill o Exodus a thrwy'r oll o Lefiticus rhoddir desgrifiad o wneuthuriad y tabernacl, sefydliad y gwahanol wyliau, a manylion y gyfraith foesol a seremonïol. Cynwys Numeri hanes y ddau gyfrifiad o'r bobl—y tro cyntaf yn nghymydogaeth Sinai, a'r ail dro pan oeddynt ar fyned i fewn i Ganaan. Yn yr un llyfr hefyd ceir amryw gyfarwyddiadau seremonïol pellach, yn nghyd a hanes yr ymdeithiad yn ystod y deugain mlynedd y buont yn yr anialwch. Yn Deuteronomium ceir ail hanes o'r ddeddf, yn nghyd a chrynodeb o hanes ymdaith yr Israeliaid o'r adeg yr ymadawsant o'r Aifft hyd derfyn yr anialwch, marwolaeth Moses cyn cyrhaedd Canaan, a Josua yn cymeryd ei le fel arweinydd y genedl.

#### Awduriaeth—Yr Hen Syniad a'r Newydd.

"Pum Llyfr Moses" yr arferid galw'r llyfrau hyn, am y tybid mai Moses oedd eu hawdwr. Bu Moses farw oddeutu 1450 C.C., yn ol y dyddiad ar ymyl y Beibl, ond fel y bernir yn awr, oddeutu 1280 C.C.; tra y mae'n ffaith na phriodolid hwy i Moses hyd o fewn i ychydig cyn y cyfnod Cristionogol. Ond er yr adeg y gwnawd hyn gyntaf hyd yn ddiweddar, mae'r farn hon wedi bod yn gyffredinol yn mhlith Iuddewon a Christionogion. Deugain mlynedd yn

ol yr oedd yn beryglus i neb i amheu ei chywirdeb; ac hyd yn nod heddyw credir hi gan y mwyafrif o Gristionogion. Ond y mae ymchwiliadau ysgolheigion yn ystod y ganrif a haner ddiweddaf wedi gwneud yr awduriaeth Foesenaidd yn amhosibl. Llochesid amheuaeth gyda golwg ar hyn gan rai o'r tadau Eglwysig, yn neillduol gan Jerome (un o'r enwocaf o honynt) yn y 4edd ganrif. Ni chlywyd dim am hyn yn mhellach hyd yr 17eg ganrif, pryd y datganwyd yr un amheuaeth gan ddau o ddynion enwocaf y ganrif hono, sef Hobbes a Spinoza. Ond ni thynodd hyn fawr o sylw ar y pryd. Tua chanol y 18fed ganrif (yn 1753) y dechreuodd y ddadl o ddifrif, pryd y gwnaeth Ffrancwr, o'r enw Astruc, yn hyspys ei ddarganfyddiad o fodolaeth dwy ysgrif yn Genesis, y rhai a wahaniaethid yn benaf gan yr enwau a ddefnyddid am y Bod Dwyfol—Duw ac Arglwydd. Creodd hyn gynwrf digyffelyb; ond bu'n foddion i droi sylw ysgolheigion diragfarn at y pwnc, gyda'r canlyniad fod darganfyddiad Astruc wedi ei gadarnhau, ac nid yn unig hyny, ond fod y gwaith a ddechreuwyd ganddo ef wedi ei gario lawer yn mhellach. Mae enwau'r ysgolheigion fuont yn llafurio yn y cysylltiad hwn yn lluosog—yn rhy luosog i wneud sylw o honynt yma. Y mwyaf adnabyddus o honynt oedd De Wette, Hupfeld, Ewald, Graf, Kuenen, a Wellhausen. I De Wette, yn benaf, y perthyn yr anrhydedd o brofi tu hwnt i amheuaeth na ysgrifenwyd Deuteronomium am ganrifoedd ar ol marwolaeth Moses. Daliai Ewald fod yn yr oll o'r Pum' Llyfr gynifer ag wyth o wahanol ysgrifau. Mae rhai o gasgliadau Ewald, yn neillduol mewn perthynas i amser ymddangosiad un rhan (a hono y rhan helaethaf) o'r Pum' Llyfr, wedi eu troi o'r neilldu gan ysgolheigion diweddarach, y mwyaf enwog o'r rhai oedd Kuenen, Graf, a Wellhausen; a chasgliadau y tri olaf hyn yw y rhai a dderbynir yn awr bron yn unfrydol gan ysgolheigion Beiblaidd. Gellir symio'r mater fel y saif yn awr i fyny fel hyn: nad un person yw awdwr y Pum' Llyfr ond llawer, a fod y gwahanol ranau wedi gwneud eu hymddangosiad rhwng y flwyddyn 900 a 400 C.C. Sylwir ar hyn eto yn y man.

### Beth wnaeth Colenso?

Ar y Cyfandir y dechreuodd yr hyn a adnabyddir yn awr fel "Beirniadaeth Feiblaidd Ddiweddar"; ac ar y Cyfandir y blodeuodd hyd yn ddiweddar iawn yn y 19eg ganrif—yn benaf yn yr Almaen. Y cyntaf (fodd bynag y cyntaf o nod) i drin y pwnc oddiar y safle newydd yn Lloegr oedd Esgob Colenso. Daeth ei lyfr ef ar y Pum' Llyfr allan yn 1862; ac yn hwn amheuai gywirdeb eu hanes yn nghyd a'r awduriaeth Foesenaidd o honynt. Condemniwyd ef am hyn gan y ddau Dy Confocasiwn (y Seneddau Eglwysig), a gwnawd pob ymgais posibl i'w yru o'r offeiriadaeth. Heddyw rhoir datganiad i syniadau am y Beibl gan ysgolheigion perthynol i Eglwys Lloegr—megis Driver, Cheyne, &c.—ger bron y rhai yr ymddengys syniadau Colenso yn ddiniwed iawn; ac eto llenwir y swyddi mwyaf pwysig gan yr ysgolheigion hyn, ac ni ynganir gair yn eu herbyn.

### Ffrwyth Beirniadaeth Ddiweddar.

Sylwyd fod Ewald yn dal y gwneid y Pum' Llyfr i fyny o gynifer ag wyth o wahanol ysgrifau. Gan nad beth am gywirdeb hyn, sicr yw mai casgliad ydynt o wahanol amserau a chan wahanol awdwyr, enwau'r oll o'r rhai sydd anwybyddus. A gellir penderfynu dyddiad yr ysgrifau hyn yn lled agos, er nad yn hollol gywir efallai. Yr ydys eisoes wedi cyfeirio at amhosibilrwydd yr awduriaeth Foesenaidd o unrhyw ran o'r Pum' Llyfr fel y maent yn awr. Ai ni ysgrifenwyd dim gan Moses? Ni ellir dyweyd. Mae'n bosibl ei fod wedi ysgrifenu y "deg gair"; ond yr

oedd y rhai hyn yn wahanol iawn i'r Deg Gorchymyn yn Exodus a Deuteronomium—nid yn y sylwedd, ond yn y ffurf; ac nid yw'r Deg Gorchymyn (y rhai gyda llaw nad ydynt yn hollol yr un peth yn y llyfrau uchod) ond helaethiad o'r "deg gair" gwreiddiol. Gyda golwg ar y ffynhonell o'r hon y cafodd Moses y "deg gair," gellir sylwi fod tebygolrwydd mawr rhyngddynt a'r hyn geir yn amryw o Feiblau crefyddau y Dwyrain; yn Meibl y Bwdiaid, yr hwn sydd henach na dim yn ein Beibl ni, mae pum' gorchymyn, pedwar o'r rhai ydynt yn hollol yr un peth a phedwar o'r Deg Gorchymyn. Yn mhob cymdeithas rhanol wareiddiedig mae cyfreithiau tebyg i hyn yn anghenraid.

### Yr Ysgrifau Henaf.

Yr adran henaf (gyda'r eithriad o'r Deg Gorchymyn yn eu ffurf wreiddiol) yw Exodus xx. 20—xxiii. 33, dyddiad yr hwn nis gellir yn gywir ei benderfynu—yn debygol cyn neu o leiaf yn nechreu y 9fed ganrif. Daeth y ddwy nesaf i fodolaeth rywbryd rhwng dechreu'r 9fed a chanol yr 8fed ganrif. Erbyn yr adeg a enwyd olaf yr oedd y ddwy (yn debygol) wedi ei huno a'u gilydd. Cynwysa un o honynt—yr henaf fel y credir gan y mwyafrif—un o ddau hanes y cread, un o ddau hanes y diluw, a hanes y patriarchiaid, a gellir ei hadnabod wrth yr enw roddir gan yr awdwr i'r Bod Dwyfol, sef "Arglwydd" (Jehovah). Nodwedd arbenig arall sy'n gwahaniaethu hon oddiwrth yr ysgrifau ereill yw ei thuedd i siarad am Dduw fel yn meddu ffurf a nwydau dynol. Yn ol barn rhai daeth hon i fodolaeth rhwng 850 a 750 C.C., tra y cyfyngir adeg ei chyfansoddiad gan ereill rhwng 850 ac 800. Y tueddiad yn awr yw derbyn y dyddiad olaf. Adnabyddir yr ysgrif sydd wedi ei huno a hi eto wrth yr enw a ddefnyddir am y Bod Dwyfol, sef "Duw" (Elohim). Rhed yr ysgrif olaf hon yn mlaen trwy'r oll o'r Pum' Llyfr; a bodola tebygolrwydd mawr rhyngddi a'i chydysgrif, er fod digon o wahaniaeth rhyngddynt i gyfiawnhau'r casgliad nad yr un yw eu hawdwr. Gesyd y rhan fwyaf o'r beirniaid amser cyfansoddiad hon cyn canol yr 8fed ganrif. Ysgrifenwyd rhan o

### Deuteronomium

ychydig cyn 621 C.C. Pa faint cyn hyn mae'n anhawdd penderfynu. Ni esyd neb yr amser cyn y 7fed ganrif; a barn Driver yw iddo gael ei gyfansoddi cyn diwedd teyrnasiad Manasseh (644 C.C.). Gwneir y rhan fwyaf o'r llyfr i fyny o areithiau (tair), wedi eu gosod gan yr ysgrifenydd yn ngenau Moses, yn y rhai yr adroddai "ar fyr eiriau yr holl ystori," ac y gosodai ger eu bron grynodeb o'r deddfau oeddynt i ufuddhau iddynt. Llyfr cyfansawdd yw hwn hefyd. Bernir mai rhan o Deuteronomium oedd y llyfr a gafwyd yn y deml gan Hilciah (gwel 2 Bren. xxii); fod y llyfr hwnw yn ateb i iv. 44—xxvi, xxviii, yn ol barn rhai; ac i xii—xxvi, yn ol ereill. Gan nad pa un o'r ddau sydd iawn—ffafrir yr olaf gan y mwyafrif—cydunir yn unfrydol mai ychwanegiad ar adeg ddiweddarach yw'r pedair penod gyntaf o'r penodau olaf, gan bwy ni ellir dyweyd. Nodweddir ysgrifeniadau'r pedwar uchod gan yspryd y prophwyd; ond gwahanol i'r tri cyntaf, medd awdwr Deuteronomium gydymdeimlad cryf â'r yspryd offeiriadol hefyd.

### Yr Ysgrif Ddiweddaraf.

Ar ol i'r uchod dd'od i fodolaeth, yr oedd rhan bwysig o'r Pum' Llyfr heb ei ysgrifenu eto—y rhan fwyaf o Lefiticus a Numeri, a rhanau o Genesis ac Exodus. Un o nodau gwahaniaethol yr ysgrif hon eto yw'r enw roddir ynddi i'r Bod Dwyfol, sef "Duw" (Elohim). Ond yn wahanol i'r ysgrif arall, yn yr hon y defnyddir y gair "Duw" hefyd, arddangosa'r awdwr gydymdeimlad dwfn a'r offeiriadaeth. Ysgrifenwyd y rhan hon

yn ystod, neu yn fuan ar ol, y caethiwed, a chyhoeddwyd hi gan Ezra a Nehemiah yn Jerusalem yn 444 C.C. Nid ydys i ddeall mai ar yr adeg hon y daeth y deddfau sy'n gwneud i fyny yr adran hon i fodolaeth—dim yn ychwaneg na'u bod wedi eu gosod mewn ysgrifen. Ni wnawd ond ychydig o ychwanegiadau at y llyfrau hyn ar ol hyn, a chyn terfyn y 5ed ganrif yr oeddynt (fel y bernir) yn y ffurf y maent ynddo yn awr. Ni ddylid meddwl mai cyfansoddiadau gwreiddiol yw'r oll o'r ysgrifau uchod; nid oes amheuaeth nad oedd gan yr awdwyr ysgrifau eraill (enwir amryw yn y Beibl ei hun) o'r rhai y celent ddefnyddiau at eu gwaith; a bodolai, yn mhellach, lawer o draddodiadau yn eu plith. Ni ddylid meddwl ychwaith fod y casgliadau ydys wedi roddi uchod yn anffaeledig; gall llawer o honynt gael eu profi yn anghywir gan ymchwiliadau mwy trylwyr a gwybodaeth addfetach y dyfodol.

### Hanes y Diluw.

Nis gellir, mewn erthygl fel hon, nodi yn gyflawn resymau y beirniaid dros y casgliadau ydys wedi cyfeirio atynt. Ond efallai y ca'r darllenydd ryw ddrychfeddwl beth ydynt trwy sylwi ar hanes y diluw yn fanwl. Wrth ddarllen yr hanes yn ofalus fel y mae (gwel Gen. v.—ix. 17), nis gall beidio sylwi ar yr anghysonderau sydd ynddo. Ond wrth ei ddarllen yn unol a'r cyfarwyddyd ar derfyn yr erthygl, gwel ei fod yn naturiol yn ymranu i ddau hanes (neu draddodiad), a fod llawer o'r anghysonderau yn diflanu. Yn un o'r ddau defnyddir yr enw "Duw," yn y llall "Arglwydd," am y Bôd Dwyfol. Gellir sylwi yn mhellach y cynorthwyir ysgolheigion gan gynwys y llyfrau i benderfynu amser eu hymddangosiad..

### Chwedlonaeth y Pum' Llyfr.

Mae rhan fawr o'r llyfrau uchod—yn neillduol felly Genesis — yn chwedlonol. Y fath yw hanes y cread, cwymp dyn, a'r diluw. Mae y mwyafrif o Gristionogion wedi ac yn edrych arnynt o hyd fel hanesion—fod y nefoedd a'r ddaear wedi eu creu mewn chwe diwrnod. A phan ddaeth afresymoldeb y gred hon yn amlwg yn ystod yr haner olaf o'r 19eg ganrif, mewn canlyniad i'r wybodaeth well am natur a ddaeth i fodolaeth yn ei chwrs, yna dechreuwyd esbonio "diwrnod" fel yn golygu "cyfnod" hir, er osgoi'r angenrheidrwydd o gydnabod eu gwir gymeriad. Mae'r hwyrfrydigrwydd hwn ar du Cristionogion i symud yn y blaen wedi bod yn graig rhwystr ar ffordd cynydd gwyddor; oherwydd bu unwaith yn beryglus i neb i ddyweyd na gwneud dim fyddai'n tueddu i ddymchwelyd yr hyn a ddysgid yn y Beibl; ac un o'r penodau mwyaf anymunol yn hanes yr Eglwys yw ei hymddygiad at wyddonwyr yr oesau. Ond mae dynion fel Galileo ac ereill wedi llafurio a dioddef i ryddhau'r meddwl dynol o gaethiwed i'r llythyren.

### Tarddiad y Chwedlau Hyn.

Nid yw'r chwedlau hyn yn gyfyngedig i'n Beibl ni mewn un modd, ond ceir hwy yn rhyw ffurf neu gilydd yn holl Feiblau'r byd. Ceir hanes y cread, cyflwr diniwed a chwymp dyn, a diluw, yn amryw o honynt. Maent yn amrywio yn eu ffurf; ond perthyn iddynt ddigon o debygolrwydd i ddangos eu bod oll wedi tarddu o'r un ffynonhell, yn mhell yn ol yn hanes yr hil ddynol. Ni pherthyn iddynt yr un gwerth ynddynt eu hunain, oddieithr mor bell ag y dangosant fel y mae'r meddwl dynol erioed wedi bod yn ceisio dehongli'r dirgelwch mawr sydd yn amgylchynu dyn.

O.N.—Hanes cyntaf y Diluw: Gen. vi. 5—8; vii. 1—5, 10, 12, 16 (y frawddeg olaf), 17, 18 (y frawddeg olaf)—20 (hyd "i fyny"), 22, 23 (hyd "o'r ddaear"); viii. 6—12, 13 (o "a Noah" hyd y diwedd), 15—19, 20—

22; ix. 5—17. YR AIL HANES: Gen. vi. 9—22; vii. 6—9; 11, 13—16 (hyd "Duw iddo"), 18 (hyd "ar y ddaear"), 20 (y frawddeg olaf), 21, 23 (o "a Noah")—viii. 5, 13 (hyd "ar y tir"), 14—19; ix. 1—17. *Darllener yr hanes fel y mae yn y Beibl yn gyntaf, ac yna yn ol y cyfarwyddiadau uchod.*

DISGYBL.

## NYTH Y FRAN.

DR. HERBER EVANS.

Dywed Elfed yn hanes bywyd Herber fod yn perthyn iddo ddau gyfnod. "Yn y cyfnod cyntaf yr oedd yn ffashiwn i chwerthin am ben Beirniadaeth Feiblaidd——"Burym Germani,"—fel y galwai Herber hi yn 1878; ond erbyn yr ail gyfnod yr oedd pob gweledydd yn dyfod i ddarllen arwyddion yr amserau yn well, ac er heb gredu, i beidio gwawdio. Nid oedd ef ei hun am ollwng gafael ar yr hen athrawiaethau o *ran eu sylwedd*; ond hawliai i'r beirniad dyfal a gonest i gael cyhoeddi ei ddamcaniaethau a dweyd ei farn. Mynai fod gan Dduw rywbeth i'w ddysgu trwy natur a'r Beibl i bob oes." Mae llawer o bethau yn y dyfyniad hwn ag y carem sylwi arnynt, ac yn neillduol y geiriau mewn llythyrenau Italaidd. Carem glywed y tafod hyawdl, sydd mor fud heddyw, yn egluro beth mae hen athrawiaethau y cwymp, y Drindod, yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, cosp dragywyddol, &c., yn olygu o *ran eu sylwedd*; ac yr ydym yn sicr y buasai gan y galon fawr hono a gurai yn mynwes Herber ei hesponiad ei hun ar y pynciau hyn heb fod yn gymhwys ar hyd yr hen linellau. Nid yw ryfedd i mi ei fod wedi cyfnewid yn ei agwedd at dueddiadau duwinyddol ei oes. Ymddengys i mi fod yr elfen eang, hynaws a ryddfrydig yn wreiddiol yn ei natur, ac yn dyfod i'r golwg yn ngwên groesawgar ei wyneb a thynerwch anghymarol ei lais, a chafodd yr elfen yma bob chwareu teg hefyd i ddyfod i gyffyrddiad â phethau cydnaws. Darllenai lenyddiaeth oreu ei amser. Yr oedd wedi ei nawseiddio gan farddoniaeth

BROWNING A TENNYSON;

a dywed Coventry Patmore, yn ei hunanfywgraffiad, mai Tennyson o bawb wnaeth fwyaf o *havoc* ar dduwinyddiaeth boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd bywyd meddyliol Herber mor llawn ac egniol, a'i yspryd gymaint mewn *touch* a symudiadau ei oes, fel yr oedd yn anmhosibl iddo beidio cael ei ddylanwadu ganddynt; a chadwodd ieuenctyd ei galon hyd y diwedd trwy garu Duw a charu dyn, a chredu fod gwell dyfodol o flaen dyn na freuddwydiodd ef am dano eto. Felly nid yw y dyfyniad ydym wedi godi o hanes ei fywyd ddim yn ein synu. Dyna beth ddisgwyliem oddiwrth y dyn. Ond yr ydym yn dyfod i ddechreu credu fod dylanwad yspryd yr oes yn llawer mwy nerthol nag a feddyliem wrth ddarllen y nodiadau ar farwolaeth

DR. NEWMAN HALL

yn y newyddiaduron er ys rhyw fis yn ol. Efe oedd prif weinidog yr Annibynwyr yn Lloegr yr oes o'r o'r blaen, ac yr oedd yn 86 oed pan y bu farw. Felly yr oedd wedi cyrhaedd addfedrwydd oedran, ac wedi ffurfio ei syniadau cyn y mudiad mawr hwnw i ddechreu tua'r flwyddyn 1860, sydd wedi newid agwedd dduwinyddol y wlad. Ystyrid ef gyda'r culaf o'r blaid Efengylaidd ag y perthynai iddi, ac ni ymddangosai fel wedi

GWYRO MYMRYN HAUL

oddiwrth yr egwyddorion a ddysgodd ar yr aelwyd yn Maidstone, lle y ganwyd ef yn 1816. Cyhoeddodd draethodyn, "Dewch at Iesu," yn 1848, sydd wedi ei gyficithu i ragor nag ugain o ieithoedd, ac wedi cael cylchrediad o agos i dair miliwn o gopiau. Mae iawnffyddiaeth yn cael ei hadlewyrchu ar ei dudalenau yn y lliwiau mwyaf gwrthun ac ofnadwy. Sylwer ar y brawddegau canlynol: "Rhaid i Dduw actio at *rebels*, nid fel tad caredig, ond fel brenhin digofus"; "Unwaith yn uffern ac mae pob gobaith wedi diflanu am byth"; "Daeth Iesu yn ddyn er mwyn ufuddhau y ddeddf oeddem ni wedi dori, a dioddef y gosp oeddem ni wedi haeddu. Yr oeddem ni yn garcharorion wrth y *bar* wedi ein condemnio i farw. Gadawodd ef orsedd ei Dad a safodd wrth ein hochr, gan ddywedyd, 'Byddaf farw drostynt, fel y caffont faddeuant ac y byddont byw byth'"; "Na ymddiriedwch yn eich gweithredoedd da, eich caricter da, eich gonestrwydd a'ch cariad; nid oes dim all achub on'l cyfiawnder a marwolaeth Iesu. 'Does dim eisiau i chwi i *wneud* dim. Mae Iesu yn cynyg eich achub"; &c., &c. 'Does dim eisiau dyfynu rhagor i ddangos fod golygiadau y traethodyn yn gydweddol a'r iawnffyddiaeth gulaf a mwyafafresymol abregethid ar yr adeg y cafodd ei gyhoeddi. Meddylid yn gyffredin fod Dr. Newman Hall wedi parhau trwy y blynyddau yn *proof* yn erbyn hudoliaeth pob syniad newydd ac wedi marw

YN FFYDDLON I FFYDD EI IEUENCTID.

Dyna ddisgwylid oddiwrth y cymeriad yr oedd wedi ei sefydlu trwy ei holl weinidogaeth. Ymddangosai fel wedi ymgaledu yn yr hen gyfundrefn. Pan oedd eraill yn ei enwad yn llaesu eu gafael, daliai ef yn gyndyn yn erbyn y ddysg newydd oedd mor anghydnaws a'i yspryd. O'r hyn leiaf dyna'r syniad cyffredin am dano fel y daeth i'r golwg ar adeg ei farwolaeth, ond syniad cyfeiliornus fel mae yn troi allan wedi'r cwbl. Ac os ydyw yn wir fod dylanwadau y cyfnod newydd wedi bod mor nerthol fel ag i siglo Newman Hall, prif bregethwr Efengylaidd ei oes yn ei deyrngarwch i'r hen syniadau, onid teg ydyw casglu mai ychydig iawn o bobl *effro a chyda llygaid agored* sydd wedi dianc o'u gafael? Ysgrifenai y

PROFF. ADENEY,

o New College, Llundain, i'r "*Daily*

*Mail*," Chwefror 19eg, i gywiro rhai gosodiadau yn y Cofiant o Dr. Newman Hall oedd newydd ymddangos ar ei dudalenau. Desgrifid ef fel yn perthyn i'r dosparth mwyaf cyfyng a chaeth o'r blaid Efengylaidd, y culaf o'r cul o honynt, &c. Yn ngwyneb hyn mae y Proff. Adeney yn crybwyll y tair ffaith a ganlyn: (1) "Dywedodd wrthyf tu fewn i fis i'w farwolaeth, ei fod yn dal er ys amser hir y syniad nad cyfrifiad o gyfiawnder Crist oedd cyfiawnhad trwy ffydd, ond ei fod yn

GYFNEWIDIAD GWIRIONEDDOL

yn nghariter dyn; (2) "Ar yr un achlysur ymddiddanai yn rhydd gyda golwg ar ffrwyth beirniadaeth Feiblaidd, a dywedai gyda gwên, fod rhai pobl yn cael eu dychrynu gan y syniad o ddau Esaiah. "Pa wahaniaeth wnelai hyny i ni," meddai? Yr oedd yn foddlon i dderbyn ffeithiau sefydledig gyda phob parodrwydd. (3) Dywedodd yn aml wrthyf nad oedd yn dal yr athrawiaeth o gosp dragywyddol sydd yn cau allan bob cyfleusdra am iachawdwriaeth ar ol angeu." Wel, ymddengys i mi, y gallwn ar y dystiolaeth yna o eiddo y Proff. Adeney gasglu fod credo Dr. Newman Hall wedi'r cwbl a dybid am dano, yn

CYNHWYS TAIR ELFEN,

beth bynag, sydd yn gwneud i fynu gredo pob dyn rhesymol. Mae y gosodiad cyntaf yn golygu iachawdwriaeth trwy gariter. Nid oes y fath beth a chyfrifiad o gyfiawnder. Nid rhyw drafodaeth fasnachol oedd aberth y groes, trwy yr hon y cymerodd Iesu gosp ein pechodau ni arno ei hun, ac y cyfrifwyd ei gyfiawnder ef i'r rhai a gredant mewn canlyniad. Mae yr ail yn golygu lle rheswm a rhyddymofyniad mewn crefydd. Nid ydym i edrych ar y Beibl fel eilun i ymostwng ger ei fron, a'i addoli gyda rhyw ymlyniad slafaidd. Mae'n lyfr i'w chwilio fel pob llyfr arall, a'i gynhwys i gael ei brofi yn ngoleuni'r rheswm a'r wybodaeth uwchaf, fel y byddo'r elfenau cymysg sydd ynddo yn cael eu gwahanaethu a'i wirioneddau mawrion yn cael eu darllen yn eu dysglaerdeb gogoneddus. Mae y trydydd yn golygu cyfleusderau cynydd a dadblygiad i bob enaid yn mlaen ac i fynu am byth.

Y FRAN.

---

## ENILLION Y GANRIF.

GAN Y PARCH. E. D. PRIESTLEY EVANS, KIDDERMINSTER.

### V.—CYNYDD CREFYDDOL.—YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

Ar ddechreu'r ganrif, yr oedd Eglwys Lloegr, a siarad yn gyffredinol, mewn cyflwr marwaidd ac isel, er ei bod wedi teimlo dylanwad y symudiad Efengylaidd a gychwynwyd gan Wesley a Whitfield yn y ganrif o'r blaen. Yr oedd plaid Efengylaidd tu fewn i'r Eglwys yn awr, yn gystal a thu allan iddi. Edrychai John Wesley bob amser ar y symudiad crefyddol a gychwynodd ef, fel rhan o Eglwys Lloegr, a gorchymyn-

ai na fyddai y cyfarfodydd crefyddol byth yn ymyru a gwasanaethau yr Eglwys. Ond ni dderbyniodd y symudiad Wesleyaidd un gefnogaeth oddiwrth y mwyafrif yn yr Eglwys. Dirmygid pob sel a brwdfrydedd fel yn groes i ffashiwn, os nad i foesoldeb. Nid oedd yr Eglwys yn cymeradwyo pregethwyr lleygol Wesley, ac ni chredai fod neb ond offeiriad wedi ei ordeinio yn addas i weinyddu y Sacramentau. Y canlyniad oedd i'r Wesleyaid ymwahanu oddiwrth yr Eglwys yn 1795. Ond nis gallai llawer a gydymdeimlent a hwy weled eu ffordd i wneud hyn, ac felly darfu iddynt aros i ffurfio y blaid Efengylaidd tu fewn i'r Eglwys. Er nad yn lluosog o ran rhif, yr oedd ganddynt ddylanwad mawr tu fewn yn gystal a thu allan i'r Eglwys. Yn mhlith y rhai mwyaf adnabyddus oedd

William Wilberforce,

a Hannah More—y cyntaf yn enwog am ei waith mawr yn achos rhyddhad y caethion, a'r diweddaf am ei chynyrchion llenyddol mewn amddiffyniad i'r ffydd Gristionogol yn ystod ei bywyd hir ac ymroddedig.

Ar yr adeg yma yr oedd adeiladau yr Eglwys mewn sefyllfa o ddadfeiliad. Meddyliai rhai nad oeddent werth y draul i'w hadgyweirio, gan na ddefnyddid hwy ond am ryw ddwy awr bob wythnos. Dywedir fod dwy Eglwys Gadeiriol ar y pryd mewn adfeilion. Yr oedd yr Esgobion yn enwog fel ysgolheigion clasurol, a dim ond hyny. Codid hwy i'r fainc ar gyfrif eu gwybodaeth o'r Lladin a'r Groeg. Yr oedd corff mawr yr offeiriaid, tuallan i'r blaid Efengylaidd selog a difrifol wedi ymroddi i amaethu, i fagu anifeiliaid, &c. ; neu i hela cadnaw, chwareu cardiau, ac yfed. Yr oedd cyflogau Esgobion ac offeiriaid, fel y parhant i raddau pell hyd y dydd heddyw, yn anghyfartal iawn—rhai yn derbyn llawer gormod, ac eraill lawer rhy fach. Yn y pwlpud yr oedd diffyg difrifoldeb a thanbeidrwydd ysprydol yn amlwg. Gwnaeth y blaid Efengylaidd lawer i leihau y drwg. Dechreuodd ail-adeiladu yr eglwysi. Er yn cael eu dirmygu gan bersonau o addysg a diwylliant yn eu Heglwys eu hun, gwnaethant lawer i hyrwyddo deddfwriaeth gymdeithasol, lledaenu gwybodaeth, dwyn yn mlaen ddiwygiadau gwleidyddol ac anturiaethau cenhadol, yn gystal a gosod sefydliadau dyngarol ar waith. Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol yr Eglwys, yn gystal a'r *Tract Society*, yn y flwyddyn 1799, a

Chymdeithas y Beiblau

yn 1804. Yr oedd prif ddynion y Blaid Efengylaidd yn byw mewn rhan o Lundain, a elwir Clapham, lle yr oedd y Parch. John Venn yn offeiriad. Casglai pobl o'r un yspryd at eu gilydd i'r lle hwn, megis Wilberforce, Zachary Macaulay (tad Arglwydd Macaulay), James Stephen, Arglwydd Teignmouth, ac eralll. Yn eu plith hefyd, er nad o honynt, gwelid William Smith, yr Aelod Seneddol dros Norwich, yr hwn a fu yn offerynol yn 1813 i ddileu y ddeddf a wnai wadiad o'r Drindod yn gospadwy. Yn y cynhadleddau a gedwid ganddynt, yr oedd pob math o bynciau yn cael eu trin, yn neillduol, materion oeddynt yn ymwneud ag hawddfyd yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Adnabyddid hwy fel y

Clapham Sect,

ac yn eu plith hwy, yn neillduol, y cafodd y symudiad yn erbyn caethwasanaeth Prydeinig bob atteg a chefnogaeth. Yn wir, rhyddhad y caethion yn 1833 oedd gweithred fawr ddiweddaf y Blaid Efengylaidd. Ymddengys fel pe byddai ei chenhadwri wedi ei chwblhau ar ol hyn, ac i'w gwaith i gael ei gymeryd i fyny gan blaid arall.

Ar ol i weithred Diwygiad 1832 (*Reform Act*) gael ei phasio, byddai yn anhawdd defnyddio gormodiaith wrth ddesgrifio y dychryn a deimlid gan aelodau Eglwys Lloegr gyda golwg ar ei ddyfodol. Ofnid Dadgys-

ylltiad fel pe byddai wrth y drws. Yr oedd y Whigiaid wedi dechreu ar dymhor eu gallu. Yr oedd Arglwydd Grey wedi dweyd wrth yr Esgobion am drefnu eu tai, ac ysgrifena

J. H. NEWMAN YN EI APOLOGIA

fod rhai o honynt wedi eu sarhau a'u bygwth ar heolydd Llundain. Dywedai Dr. Arnold o Rugby, yn 1832, "Yr Eglwys, fel y mae yn awr, nid oes un gallu a ddichon ei hachub." Cynygiai ef fod yr Eglwys i gynhwys yr holl enwadau, heb ofyn oddiwrthynt i roddi i fyny un o'u hathrawiaethau gwahaniaethol. Dygwyd mesur o flaen y Senedd i ddileu deg o Esgobaethau yn yr Iwerddon. Dyma'r ymgais gyntaf i drin yr Eglwys fel cangen o'r *Civil Service*. Ond pan oedd pob un yn parotoi ar gyfer trwst dymchweliad yr Eglwys, clywid un llais yn siarad mewn tôn glir a dibetrus. Pregethodd John Keble bregeth Mehefin 14eg, 1833, yn Rhydychen ar

"WRTHGILIAD CENHEDLAETHOL."

Cyweirnod y bregeth oedd fod "yr Eglwys yn gymdeithas Dwyfol ; na osoded neb ddwylaw ansanctaidd arni, a'i halogi." Mae Newman yn dyddio dechreuad y symudiad Uchel-Eglwysig gyda phregeth Keble. Tarawodd ef y nodyn iawn ar yr amser y disgwyliai ffyddloniaid yr Eglwys am dano.

Aeth y symudiad rhag ei flaen yn gyflym gyda'r prif amcan i gadw yr Eglwys yn ddilwgr mewn gwrthwynebiad i arwyddair y blaid Efengylaidd—iachawdwriaeth y dyn unigol. Achubwyd yr Eglwys fel sefydliad, ond pasiwyd gweithred Seneddol yn 1836 i reoleiddio ei gwaddoliadau ac ad-drefnu ei hesgobaethau a'i phlwyfi. Yn ystod y flwyddyn y traddododd Keble ei bregeth enwog, ffurfiwyd cymdeithas o gyfeillion yr Eglwys yn Rhydychen, a gyfrifai yn mhlith ei haelodau Hugh James Rose, William Palmer, John Keble, R. H. Froude, a J. H. Newman. Yn ddiweddarach unodd

DR. PUSEY

a hwy. Dalient nad oedd yr Eglwys yn genhedlaethol yn unig, ond hefyd yn Gatholig, wedi ei chysylltu a'r Eglwys Gatholig gyntefig, trwy olyniaeth Apostolaidd. Darfu iddynt syrthio mewn cariad a'r gorphenol, a gwelent ynddo nerth, prydferthwch a bywyd oedd yn eu swyno i raddau pell. Yr oedd yr yspryd hwn i ryw fesur wedi dyfod i'r golwg yn nofelau Syr Walter Scott, ac yn nhuchangerddi chwaraeus Thomas Love Peacock. Gwelid nad oedd bywyd a chelf y canoloesoedd yn gynyrch digwrtaith cyfnod tywyll, ond yn cael eu nodweddu gan elfenau rhamantus a brwdfrydig. Ymddangosai y gorphenol iddynt yn fwy syml, prydferth a Christionogol na'r presenol. Yr oedd

COLERIDGE

hefyd mewn rhan wedi parotoi y ffordd trwy wneud dynion yn anfoddlawn ag elfenau arwynebol bywyd eu hoes. Gwnaed y golygiadau mewn perthynas i'r gwir syniad am yr Eglwys Lân Gatholig yn hyspys i'r cyhoedd trwy y "*Tracts for the Times*," ac adnabyddid y symudiad ambell waith fel y

"SYMUDIAD TRACTARAIDD."

Ond ni fu yn hir cyn iddo gyfarfod a gwrthwynebiad oddiwrth yr hen blaid Efengylaidd ; ac yn yr argyfwng hwnw daeth plaid Eglwysig arall i'r golwg—plaid y

"BROAD CHURCH."

Dywedodd Dr. Arnold wrth ei hen gyfaill a'i ddysgybl Stanley, "Mae'n amlwg i mi fod Newman a'i blaid yn eilunaddolwyr." Y Parch. Joseph Blanco White oedd tad y *Broad Church*, a daeth ef yn Undodwr yn 1835. Cymerodd y blaid hon i fyny y cwestiwn o ddiddymu prawflwon (*tests*) crefyddol yn y prifysgolion, yn neillduol yr hen arferiad a fodolai er

amser Elizabeth o orfodi myfyrwyr heb raddau (*undergraduate*) i arwyddnodi y namyn deugain erthygl. Yn 1841 dygwyd y gwrthwynebiad i'r Tractariaid i addfedrwydd trwy i Newman gyhoeddi ei "Draethodyn 90," yn yr hwn y gosodai i lawr nad oedd y namyn deugain erthygl yn anghyson a'r athrawiaethau a ddelid gan Eglwys Rhufain. Dadl hir a chwerw oedd y canlyniad, a chafodd y *Traethodynau* eu condemnio gan awdurdodau y prifysgolion a'r Esgobion.

Dwy flynedd yn ddiweddarach (1843), traddododd Dr. Pusey bregeth ar y "Cymun sanctaidd," am yr hon y cafodd ei wahardd i ymddangos mwyach yn mhwlpud Prifysgol Rhydychen. Yn 1845 aeth Newman drosodd i Eglwys Rhufain. Yn 1846 cafodd W. G. Ward ei amddifadu o'i raddau am ei draethawd ar "Raggynllun yr Eglwys Gristionogol," yn yr hwn y dysgir fod Eglwys Rhufain yn rhagori ar Eglwys Lloegr. Aeth yntau a llawer eraill ar ol Newman, ond arosodd Pusey,* Keble a'r mwyafrif yn gadarn yn eu lleoedd yn Eglwys Lloegr, ac enillodd y symudiad Uchel-Eglwysig mewn nerth flwyddyn ar ol blwyddyn fel mae yn awr y blaid fwyaf lluosog a dylanwadol yn yr Eglwys.

O 1847 hyd 1851 cafodd yr Eglwys ei therfysgu gan ddadl ar "Athrawiaeth Bedydd" a elwid *Dadl Gorham*. Daliai y Parch. Mr. Gorham nad oedd bedydd yn cynyrchu ail-enedigaeth, a cheisiodd Esgob Exeter ei daflu allan o'i fywioliaeth. Methodd yr Esgob, ac aeth lluaws o'r blaid Uchel-Eglwysig drosodd i Rufain mewn canlyniad, yn mysg y rhai yr oedd Archddiacon Wilberforce, brawd Esgob Wilberforce, ac Archddiacon Manning, ei frawd-yn-nghyfraith.

Yn y cyfamser yr oedd plaid y *Broad Church* yn enill tir, ac yn rhifo yn mysg ei hymlynwyr y fath enwogion a Dr. Arnold, Stanley, Jowett, Maurice a Charles Kingsley. Nid oedd ganddynt hwy un ymddiried mewn credoau anhyblyg, a'u dymuniad oedd gwneud yr Eglwys i gynhwys pob dosparth o grefyddwyr trwy'r wlad. Yn 1860 cyhoeddodd rhai aelodau o'r blaid gyfrol o "Draethodau ac Adolygiadau,"

"ESSAYS AND REVIEWS,"

a gymerent olygiadau eang a gwrthuniongred ar lawer o gwestiynau duwinyddol pwysig. Yn mhlith yr ysgrifenwyr oedd archesgob presenol Canterbury, a Dr. Rowland Williams o Lanbedr. Achosodd y llyfr gyffro mawr trwy'r wlad, ac nis gellir prisio ei ddylanwad ar feddwl crefyddol y deugain mlynedd sydd wedi pasio. Yr oedd dylanwad yr ysgol yma yn fawr iawn ar y pryd, ac fe lanwodd le pwysig yn hanes y cyfnod. Yn ystod yr ystorm a achoswyd gan yr *Essays and Reviews* cafodd

ESGOB COLENSO

ei erlid oherwydd ei feirniadaeth ar y Pum' Llyfr, ac yr oedd Deon Stanley braidd wrtho ei hun yn sefyll drosto, a'r unig offeiriad a roddodd wahoddiad iddo i bregethu yn ei bwlpud. Erbyn hyn mae egwyddorion a ffrwythau beirniadaeth Colenso wedi eu mabwysiadu gan bawb bron o bob Eglwys. Darfu i'r ddwy blaid, yr *High* a'r *Broad*, ddioddef erledigaeth, a'r *High*, hyd yn nod garchariad, ond gwelwyd yn fuan fod y fath driniaeth yn annoeth a diddefnydd. Gellir dweyd fod y Defodwyr wedi enill eu buddugoliaeth yn 1892 yn achos Esgob Lincoln, ac mae eu dylanwad yn oruchaf yn yr Eglwys heddyw.

Gyda golwg ar Eglwys Rufain, ar

---

* Pan yr ymwelodd Deon Stanley a'r Pab Pio Nono yn 1886, gofynodd iddo i gymeryd gydag ef genhadwri i Dr. Pusey, "Pan y cwrddwch ag e'," meddai'r Pab, "dywedwch fy mod i yn ei gymharu i gloch sydd bob amser yn gwahodd y ffyddloniaid i'r Eglwys, ac yn aros ei hun bob amser tuallan."

ddechreu'r ganrif nid oedd o fawr pwys yn mhlith yr enwadau crefyddol. Ei harwyddair oedd bod yn dawel, a phan unodd Newman a hi, ac y ceisiodd osod bywyd ynddi yn ystod ail haner y ganrif, yr oedd yr hen Gatholiciaid yn wrthwynebol iawn iddo ef a'i gynllun. Y cwbl ddymunent hwy oedd cael llonydd i addoli yn eu ffordd eu hunain, a gwneud mor lleied o dwrw ag oedd bosibl. Ond yn 1850 cafodd Lloegr ei chynhyrfu drwyddi draw gan weithred y Pab yn creu archesgobaeth Westminster, ac yn rhanu Lloegr yn ddeuddeg o esgobaethau Catholig. Canlynwyd hyn gan gyffro anarferol, a darfu i Arglwydd John Russell ddwyn i'r Senedd fesur yr

"ECCLESIASTICAL TITLES,"

gan amcanu i wrthsefyll ymgais ymosodol y Pab ar Loegr. Cafodd y mesur ei gyfnewid i'r fath raddau yn ei yrfa trwy'r Senedd, fel ag y collodd y rhan fwyaf o'i nerth gwreiddiol.

CARDINAL WISEMAN

oedd Archesgob cyntaf Westminster, ac ar ei farwolaeth dylynwyd ef gan Cardinal Manning, yr hwn a wnaeth gymaint dros ei Eglwys fabwysiedig. Ond nid oedd y Pab wedi deall y symudiad defodol yn Lloegr, a thrwy y *Vatican Decrees* yn 1870, a hawlient anffaeledigrwydd iddo ef ei hun ac nid i'r Eglwys, darfu iddo niweidio ei achos yn Lloegr, nid yn unig gyda'r Uchel Eglwyswyr, ond hefyd gydag hyd yn nod y Catholiciaid Rhufeinig eu hunain. Ac nid yw prif swyddog yr Eglwys yn Lloegr heddyw, y Cardinal Vaughan, er cymaint ei ymdrech a'i weithgarwch, yn gwneud ond ychydig iawn o argraff ar gorff mawr y bobl.

---

## Y MUDIAD UNDODAIDD.

[Y PARCH. CANON CREMER YN EGLWYS BLWYFOL ECCLES.]

(*Oddiwrth ein Gohebydd Arbenig.*)

Nos Sul, Mawrth yr 2il, ar ol pregeth iach, ryddfrydig, llawn o'r dduwinyddiaeth newydd sydd yn gweithio ei ffordd trwy yr eglwysi fel lefain yn y toes, darfu i'r gwr parchedig uchod hyspysu y byddai iddo, ar ddiwedd y gwasanaeth, siarad ar "Y mudiad Undodaidd." "Ni ddisgwyliaf," meddai, "i lawer aros ar ol i wrando ar fy llais egwan a chyfarwydd i ar y testyn dyrys hwn, ond apeliaf yn daer am wrandawiad gan y rhai hyny a gredant fod yr Undodiaid yn elynion i Grist ac i'w eglwys, fel y gallaf ddangos iddynt fod yr Undodiaid, nid yn elynion, ond yn ddisgyblion ffyddlon i'n Hiachawdwr." Palla gofod i mi roddi adroddiad llawn o'r anerchiad. A ganlyn, fodd bynag, sydd grynodeb o'r hyn a apeliai fwyaf ataf fi fel Undodwr :—

Darfu i'r ddeunawfed ganrif weled dau fudiad mawr yn mywyd Eglwys Lloegr. Yr oedd crefydd yn ffurfiol a marw, ac mewn ymgais i ochelyd ffurfioldeb, ac enill corff y bobl at Grist drwy apelio at eu teimladau, y cododd Wesleyaeth. Mewn ymgais

i foddlôni rheswm a chadw y dyn meddyliol rhag anghrediniaeth, y tarddodd y mudiad Undodaidd. Am ei fod ef wedi byw yn Rwssia, lle yr oedd yr addoliad crefyddol, ynghyd a chredo pob dyn, o dan reolaeth cyfraith y wlad, gwyddai ef yn dda mai y canlyniad o hyn oedd fod crefydd a moesoldeb yn cael eu hysgaru yn marn pob dyn ystyriol. Yr oedd bod yn grefyddol yn golygu un peth, bod yn onest, caredig a da yn rhywbeth hollol wahanol. Am y rheswm hwn gwelai ef yn eglur yr effaith iachus ag y mae rhyddid crefyddol wedi gael ar fywyd Eglwys Lloegr, ac yr oedd yn awyddus i beidio anghofio eu rhwymau i'r mudiadau crefyddol mawrion hyn. Y mae rhwymau yr Eglwys i John Wesley yn cael eu cydnabod yn rhydd a diolchgar, ond ychydig a wyddant eu rhwymau i ddynion fel Channing a Martineau.

Wrth wraidd pob credo ac erthygl fel gwirionedd canolog dadguddiad saif y gosodiad, "Un Duw sydd"; Nid oes dim i gystadlu ag ef. 'Does yna yr un gair yn y Testament Newydd, mwy nag yn yr Hen Destament, yr un gair o eiddo Crist na'i Apostolion sydd yn taflu yr amheuaeth leiaf ar y gwirionedd arbenig hwn. Yr oedd yr un Duw yn Nghrist wedi amlygu ei hun, wedi dadguddio ei feddwl, a'i galon, a'i ewyllys yn mywyd a marwolaeth, geiriau a gweithredoedd Crist. Mewn undeb ag ef, yn un ag ef, yn ei enw ef, y nesawn at Dduw—Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Dyma y ffydd Gatholig (h.y., y ffydd gyffredinol). Dyma iawnffyddiaeth (h.y., y ffydd iawn neu gywir). Nid rhyw Dduw israddol, neu haner Duw oedd Crist.

Yr oedd danfoniad Crist i'r byd, yr ymgnawdoliad, yn weithred wirfoddol o gariad ar ran y Tad nefol, er mwyn codi y natur ddynol i gymundeb ag ef ei hun, a'n gwaredu a'n hachub ni rhag gallu a chaethiwed pechod. Dangosodd Crist i ni yr unig aberth gymeradwy gan Dduw, ac mewn undeb bywiol ag ef yr ydym yn aberthu ein hunain. Y mae y syniadau paganaidd ac Iuddewig am y cymod yn mysg y pethau a fu. Y mae y gwrthdystiad Undodaidd wedi cynorthwyo i ddwyn yr Eglwys yn ol i'w symlrwydd cyntefig ar y pynciau hyn. "Er nad wyf nag Undodwr na Chrynwr," meddai y Canon, "eto yr wyf yn falch, ar adegau, i gymeryd noddfa oddiwrth benboethni areithyddol iawnffyddwyr duwiol ond anwybodus yn nhudalenau tawel (rhy dawel, ond am ambell i dro ynddynt), Channing, neu yn awyrgylch ymarferol ond ysprydol y Crynwyr." Yn mhellach, yr oedd y damcaniaethau poblogaidd am y Drindod, fel tri Duw yn cyd-deyrnasu yn y nefoedd, wedi cymeryd meddiant o bwlpudau yr Eglwys a'r Capel yn ddiwahaniaeth. Yr oedd natur wirioneddol ein Hiachawdwr—yr hwn a gafodd ei demtio a'i brofi yn mhob peth fel ninau—yn cael ei hanwybyddu. O dan y fath driniaeth daeth ei fywyd dynol yn ansylweddol, ei esiampl yn ofer, a'i weddiau yn ffug. Yr oedd angen gwrthdystio, yn enw gwirionedd a rheswm, yn erbyn yr heresi yma a alwai ei hun yn iawnffyddiaeth, heresi oedd yn gorchuddio Efengyl Crist. Darfu i'r mudiad Undodaidd roddi bodolaeth i'r gwrthdystiad yma —gwrthdystiad ar ran y meddwl athronyddol yn erbyn gwyrdroad y gwirionedd gan feddyliau difrifol, ond anwybodus, nad allent weled y gwahaniaeth rhwng cyffelybiaeth a ffaith wyddonol.

Gyda gweddi daer am fwy o ryddid crefyddol a mwy o ysbryd rhyddfrydig a chariadus Crist yn yr eglwysi y terfynwyd araeth rymus, a *stamp* diymwad ymchwiliad ac argyhoeddiad personol arni.

Er nad yn cydweled a Canon Cremer yn yr oll a ddywedodd, teimlwn yn ddiolchgar am gydnabyddiaeth mor ardderchog ar law un o wŷr urddasol yr Eglwys Wladol.

Cydnabyddai fod y mudiad Undodaidd, yn 1af, wedi pregethu y gwirionedd anrhaethol bwysig o ryddid crefyddol. 2. Wedi cadw y dyn meddyliol rhag anghrediniaeth

Pwy a wnaeth hyn fel Dr. Martineau, apostol yr Efengyl yn erbyn anghrediniaeth? 3. Wedi dwyn yr Eglwys yn ol i'w symlrwydd cyntefig ar bynciau mawrion duwinyddiaeth. Gan fod Eglwys Lloegr yn olrhain ei hachau yn ol i'r Apostolion, y mae y cyfaddefiad yma yn siarad llawer am yr Undodwr. 4. Wedi cadw yn glir o flaen yr eglwys natur person Crist. 'Dyw yr eglwys ag sydd wedi gwneuthur hyn ddim wedi byw yn ofer. 'Dyw yr eglwys sydd yn gwneuthur hyn heddyw ddim heb chwareu rhan bwysig yn nadblygiad dynoliaeth. Teimlwn wrth wrando ar yr anerchiad uchod nad oedd arnaf gywilydd o Efengyl Crist fel y pregethwyd hi gan ein tadau, ond fod yr eglwys Undodaidd yn gofgolofn ardderchog i ysbryd rhydd-ymofynol dyn, ac yn gyfryw ag y gallai unrhyw oes fod yn falch o honi.

Fel y diflanai geiriau yr offeiriad yn nystawrwydd yr eglwys, daeth i'm cof freuddwyd Akbar, fel y rhoddir ef gan Tennyson. Brenhin dwyreiniol ydoedd Akbar, yn byw rhyw dri chan mlynedd yn ol yn ngogleddbarth India. Yr oedd pob rhagfarn a chulni sectol yn gas perffaith ganddo; am hyny, ceisiodd sefydlu yn ei ymerodraeth eglwys a fydddai yn cynwys pobl o bob math o syniadau crefyddol. Ond beth am y breuddwyd? Wel, breuddwydiodd ei weled yn codi teml i Dduw, yr hon nid oedd na chapel nac eglwys Gristionogol, na theml Fahometanaidd, na theml Indiaidd, ond rhywbeth mwy syml, ac eto uwch na'r oll—teml gwirionedd a heddwch, cariad a chyfiawnder ydoedd, drysau yr hon oedd yn agored i holl awelon bywiol y nefoedd. Ond fel yr edrychai arni gyda gorfoledd, wele yr olygfa yn newid. Y mae ef yn marw, a'i fab yn teyrnasu yn ei le, ac y mae y mab yma yn tynu i lawr y deml brydferth a adeiladodd ei dad. Nid oes yna mwyach na rhyddid na heddwch, cariad na chyfiawnder, yn holl diriogaethau y brenhin. Y mae y bobl yn gruddfan o dan eu gorthrymderau, a haul eu bywyd yn mron a machlud, yn ffurfafen y byd; ond ha! fel pe byddai o belydrau olaf yr haul machludol, y mae yna genedl arall o ddynion yn codi a'u bryd ar adeiladu teml y gwirionedd. Fel y gosodant gareg ar ol careg o'r deml wrth eu gilydd, a gwirionedd a heddwch, cariad a chyfiawnder yn dyfod i drigo eto yn eu plith, y mae Akbar yn llefain allan yn ei freuddwyd, "Gogoniant i Dduw, y mae fy ngwaith ar ben, ac nid yw wahaniaeth pa ddwylaw a'i cyflawna."

Tebyg mai i ryw fath o freuddwyd y syrthiais inau fel yr ymadawn o Eglwys Eccles, gan synfyfyrio ar yr hyn a glywais. Gwelwn yr Undodiaid yn ceisio sefydlu yn y byd eglwys ryddfrydig Crist—teml y gwirionedd, gyda'i ffenestri yn agored i holl belydrau haul gwybodaeth i dreiddio i mewn gyda'u goleuni tanbeidiaf, a'i drysau yn agored i bawb o bob sect a chredo, ie, i'r anghrediniwr a chablwr crefydd. Gwelwn hefyd yn Canon Cremer un o'r genedl newydd yma sydd yn y dyddiau hyn yn codi fel pe byddai o haul machludol duwinyddiaeth Eglwys Lloegr, a'i hawydd i sefydlu yr eglwys rydd yma yn anialwch y credoau a'r Cyffesiadau Ffydd. Wrth feddwl am y cynorthwy newydd hwn i gario allan ein gwaith, ac wrth syllu ar hyd a lled, uchder a dyfnder, nerth a phrydferthwch y deml a adeiladwn, llefai fy ysbryd, "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd, ac ar y ddaear; y mae teml y gwirionedd yn cael ei hadeiladu yn y byd, ac nid yw o un gwahaniaeth pa un ai'r Undodwr ai'r Eglwyswr a'i hadeilada, canys nid oes yn hon nag Iuddew na Groegwr, caeth na rhydd, ond pawb yn un yn Nghrist Iesu."

A.P.S.

# COFNODION Y MIS.

---

Y PRIFATHRAW GORDON.—Ymddangosodd nodyn yn y rhifyn diweddaf yn dweyd fod y gwr dysgedig uchod wedi cael gwahoddiad gan Canon Cremer, Ficer Eccles, i gymeryd rhan yn y gyfres o anerchiadau gan Ymneillduwyr oedd e' wedi drefnu yn ei eglwys. Yr oedd Mr. Gordon i siarad ar y "Mudiad Undodaidd." Ni chafodd y Canon ei ffordd yn y mater. Penderfynodd Esgob Manchester (Dr. Moorhouse) fod yn rhaid tynu y llinell yn rhywle. Safiodd y Crynwr ei ben, er ei fod, a barnu oddiwrth ei anerchiad, yn llawn mor Radicalaidd a Mr. Gordon, ac yn ychwanegol at hyny, yn cynrychioli corff o grefyddwyr ydynt wedi taflu o'r nailldu y sacramentau ag y gosoda yr Eglwys y fath bwys arnynt, ac yn cymeryd y safle eithafol mewn gwrthwynebiad iddi gyda golwg ar bob pwnc o ffurf a defodaeth, ond aeth y llinell ar draws yr Undodwr, a chauwyd ef allan. Buasai Channing neu Martineau hefyd wedi cael eu cau allan yn yr un modd, er eu bod wedi gwneud mwy dros grefydd ysprydol na holl esgobion Eglwys Lloegr gyda'u gilydd am gan' mlynedd. Cymerodd Canon Cremer, o dan yr amgylchiadau, le Mr. Gordon, ac ymddengys adroddiad o'r anerchiad yn y rhifyn hwn gan ein gohebydd arbenig yr hwn oedd yn bresenol ar yr achlysur.

"LINCOLN CENTRE," CHICAGO.—Dyma enw y sefydliad newydd mae yn mryd y Parch. Jenkin Lloyd Jones i adeiladu yn Chicago, er mwyn llanw i fyny ei syniad am holl ganghenau gweithgar eglwys yn y dyddiau hyn. Mae poblogrwydd a dylanwad Mr. Jones yn y ddinas, ac yn yr holl dalaethau gorllewinol yn neillduol, wedi cynyddu cymaint yn y blynyddoedd diweddaf, a'i *ideals* yntau am ofynion crefydd wedi ymeangu ac ymddyrchafu i'r fath raddau, fel mae Eglwys *All Souls* gyda'u gwahanol ystafelloedd, a agorwyd yn 1886, wedi myned yn hollol anigonol. Mae yn lawenydd mawr genym ddeall fod Cymro o blwyf Llandyssul yn chwareu rhan mor bwysig yn y byd mawr gorllewinol, a dymunwn bob llwyddiant i Mr. Jones yn yr anturiaeth ag mae wedi ymgymeryd a hi. Sicr ydym na wnaiff ef gyda'r holl sel a'r brwdfrydedd sydd wedi ei nodweddu erioed laesu dwylaw nes byddo'r adeilad mawr wedi ei gwblhau. Penderfynwyd ar y dechreu nad oedd dim i gael ei wneud nes byddai trysorfa o gan' mil o ddoleri (£20,000) wedi ei sicrhau, ac mae'r nod hono ar fin gael ei chyrhaedd. Dyna gost yr adeilad. Aiff £10,000 i'w ddodrefnu, a golygir casglu yn ychwanegol £20,000 i fod yn waddoliad parhaus, "er mwyn," fel y dywed Mr. Jones, "cadw'r olwynion i fyn'd, ac atal rhaff pryder arianol rhag crogi y galluoedd ysprydol fyddont wedi eu gosod ar waith." Yn *Unity* am Chwefror 6ed, 1902, mae pregeth gan Mr. Jones dan yr enw "*The New Cathedral*," sydd yn cynwys amlinelliad o'r cynllun newydd sydd i gael ei sylweddoli yn y "Lincoln Centre," gyda desgrifiad o wahanol loriau yr adeilad, a'r deg adran ar hugain o weithgarwch crefyddol, moesol, addysgol a chymdeithasol mae'r adeilad yn cael ei fwriadu i'w cario allan. Mae y cynllun yn rhywbeth arbenig yn y byd crefyddol. Nis gwyddom am ddim yn debyg iddo. Mae i ryw fesur wedi ei drefnu ar linellau yr *University Settlements* mewn parthau tlodion yn ein dinasoedd mawrion; ond mae y syniad yn llawer mwy cynhwysfawr ac i gael ei gario allan ar raddfa llawer eangach. Adgofir ni unwaith eto o sylw Emerson fod pob sefydliad yn gysgod estynedig o ryw un dyn, ac yr ydym yn falch y tro hwn mai Undodiaeth ddinod a dirmygedig Sir Aberteifi yn y pen draw sydd i

fesur wrth gefn y sefydliad hwn, a fydd pan wedi ei gwblhau yn un o ryfeddodau America. Un gair wrth derfynu. Os oes gan ryw ddarllenydd galon sydd yn teimlo dros ddynoliaeth, a gwreichionen o edmygedd at un o Gymry mwyaf enwog ac athrylithgar yr oes hon, ac wedi'n, doler i spario, anfoned hi ar frys i *All Souls Church*, Chicago, Illinois, U.S.A.—W.J.

CREFYDD ABRAHAM LINCOLN.—"Nid wyf wedi uno ag unryw eglwys, oblegid 'rwyf wedi teimlo anhawsder heb wneud cam a'm rhyddid meddyliol i gydsynio a gosodiadau dyrus athrawiaeth Gristionogol sydd yn nodweddu erthyglau cred a chyffesiadau ffydd. Pryd bynag y gwnaiff unryw eglwys osod i fyny uwchben ei hallor fel unig gymhwysder aelodaeth osodiad yr Iachawdwr o sylwedd y ddeddf a'r Efengyl, "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl, a'th gymydog fel ti dy hun," byddaf yn barod i uno a'r eglwys hono a'm holl galon a'm holl enaid."

ALLTPLACA.—Trwy haelioni Mr. David Williams, Heolybont, Llanybyther, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul yr eglwys uchod â gwledd ddanteithiol o dê ar y 14eg o Fawrth. Yn yr hwyr, cynhaliwyd cyfarfod llenyddol o dan lywyddiaeth y gweinidog ac arweinyddiaeth fedrus Mr. J. Evans, arwerthydd. Cafwyd cyfarfod llwyddianus, o'r dechreu i'r diwedd, er garwed yr hin.

DOWLAIS.—GALWAD.—Mae Mr. J. P. Kane, diweddar o Goleg Caerfyrddin wedi derbyn galwad unfrydol oddiwrth yr Eglwys Undodaidd i fod yn olynydd i'r Parch. J. E. Jenkins. Dechreuodd ei weinidogaeth yno y Sul diweddaf yn Mawrth. Taer obeithiwn ei fod yn cychwyn ar yrfa lwyddianus yn y lle. Mae y gynulleidfa, er yn fechan, yn wresog ei hyspryd. Mae y dref yn boblog, ac felly y maes yn helaeth, a chyfleusdra yn nwylaw y gweinidog ieuanc, ac yr hyderwn y bydd yn alluog i roddi cyfrif iawn am dani mewn ychydig flynyddoedd.

CWMBACH, ABERDAR.——Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Capel uchod Sul a Llun, Mawrth y 9fed a'r 10fed, pan y cawsom y pleser o wrando y Parchn. T. J. Jenkins, Gellionen, a W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe, yn traddodi pregethau dyddorol ac adeiladol yn hwylus dros ben. Cafwyd cynulleiddfaoedd lluosog yn ystod yr holl gyfarfodydd, yr hyn sydd yn brawf fod y genadwri yn cael ei gwerthfawrogi. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Sul gan y Parch. H Robinson, Abercynon, a nos Lun gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Heblaw y gweinidogion a enwyd yr oedd yn bresenol nos Lun y Parch. D. Rees, Rhondda, a'r Parch. W. Jenkin Davies, Belfast, a'i briod, y rhai oeddent wedi d'od i Aberdar y prydnawn hwnw. Cafwyd gwyl rhagorol yn mhob ystyr, a mawr hyderwn y ceidw yr eglwys i fynu y bywiogrwydd hwnw a'i nodwedda yn bresenol.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Derbyniwyd y casgliadau canlynol yn ychwanegol at y rhai a gydnabyddwyd yn rhifyn Chwefror o'r YMOFYNYDD——Llwyn 7s.; Pantdefaid 14s.3c.; Trebanos 7s.; Bwlchyfadfa 6s. 6c.; Dowlais 8s. Cofier y cynhelir yr Arholiad Blynyddol prydnawn Gwener, Ebrill 11eg, am 5 o'r gloch. Gobeithio y gofala rhywun yn mhob ysgol i gyhoeddi y cyfryw, gan wneud apel wresog a difrifol am ffyddlondeb. Hyderwn y bydd nifer yr ymgeiswyr yn lluosocach eleni nag arferol.

YR YMOFYNYDD yn y Colegau a'n Darllenfaoedd Cyhoeddus.——Trwy garedigrwydd ychydig gyfeillion, y mae copi rhad o'r *Ymofynydd* yn cael ei ddanfon i'r lleoedd canlynol—Llyfrgelloedd Caerdydd, Abertawe, Aberdar, Merthyr, Corwen, Penybontar-Ogwy, Caerfyrddin, Aberteifi, Nantgaredig, Aberystwyth, Velindre, Colegau yr Anibynwyr yn Aberhonddu a Bala-Bangor, Coleg y Bedyddwyr yn Bangor, ac eiddo y Methodistiaid yn Trefecca a'r Bala, Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Hyfforddiadol

Abertawe, a Choleg Normalaidd Bangor.

YMWELIAD MR. BOWIE A DEHEUDIR CYMRU.—Cyn bydd y rhifyn hwn yn llaw ein darllenwyr bydd y Parch. W. Copeland Bowie, Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd, Llundain, yn ein plith. Cyrhaedda Landyssul ar y dydd 1af o Ebrill, a pharha ei ymweliad am tua wythnos. Bwriada ymweled a'n holl eglwysi yn ystod ei arosiad, ond o angenrheidrwydd, ni all bregethu ond mewn ychydig. Bydd yn Capelygroes yn y Cyfarfodydd Chwarterol dyddiau Mercher ac Iau, ac yn Pantdefaid, y nos Wener canlynol, ar achlysur dathliad Canmlwyddiant yr achos yn y lle. Pregetha yn Capel-y-bryn boreu Sul y 6fed ; yn Cribyn yn y prydnawn, ac yn Llanbedr yn yr hwyr. Gobeithiwn y câ dderbyniad gwresog i ba le bynag yr â, ac y dychwela i'r Brifddinas gydag argraffiadau da am yr achos yn Nghymru.

Y TRI WYR HYN.—Yn ystod y mis diweddaf pasiodd at y mwyafrif dri o wŷr enwog ac adnabyddus, ac Undodiaid ffyddlon a dylanwadol—Syr Neville Chamberlain, y milwr ; Dr. Vance Smith, yr ysgolhaig ; a William Rathbone, y dyngarwr. Ganwyd y blaenaf yn y flwyddyn 1820, a bu iddo yrfa filwrol hir a llwyddianus. Enillodd ddyrchafiad buan yn y fyddin am ei wrhydri ; ac yn y flwyddyn 1900 cafodd ei wneud yn Faeslywydd (*Field-Marshal*). Gwelwn natur y dyrchafiad hwn pan y cofiwn nad oes ond saith o Faes-Lywyddion yn y Fyddin Brydeinig, ac y mae'r Brenin yn un o honynt. Yr oedd yn adnabyddus fel Undodwr trwyadl, nid un mewn enw yn unig, ond cymerai ddyddordeb selog mewn materion crefyddol. Gadawodd £1000 i Gymdeithas Undodaidd, Llundain, a £1000 i'r Eglwys Undodaidd yn Southampton, lle yr arferai addoli.

Ganwyd Dr. George Vance Smith yn yr Iwerddon, tua'r flwyddyn 1816. Ar ol derbyn ei addysg baratoawl yn Ngholeg Manchester, a graddio yn Mhrifysgol Llundain, cafodd alwad i Bradford, lle mae y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., yn bresenol yn weinidog llwyddianus. Efallai mai y dygwyddiad mwyaf pwysig yn hanes ei fywyd, a dygwyddiad roddodd iddo le sicr yn hanes Prydain, oedd ei appwyntiad yn 1870 ar Bwyllgor Cyfieithiad Diwygiedig o'r Testament Newydd. Mae llawer yn cofio'r cyffro a'r anfoddlonrwydd berodd yr appwyntiad hon yn mhlith iawnffyddiaeth, ond pentyrwyd "marwor tanllyd" ar ben hyn pan y gwahoddwyd Dr. Vance Smith gan Deon Stanley i gyfranogi o'r cymundeb yn Westminster Abbey bob boreu cyn dechreu ar eu gwaith, gan benlinio wrth ochr Dr. Ellicot, Esgob presenol Gloucester. Yn 1876 cafodd ei wneud yn Brifathraw Coleg Caerfyrddin, a pharhaodd yn y swydd hono hyd 1888. Cododd safon addysg yno, ac enillodd barch ac edmygedd pob myfyriwr ddaeth dan ei ofal. Cofus gan rai o'n darllenwyr am y llythyr cyfarchiad caredig ddanfonodd i Olygwyr presenol YR YMOFYNYDD pan ddechreuasant a'u gwaith.

Y trydydd ydyw William Rathbone, diweddar Aelod Seneddol dros Sir Gaernarfon, yn 83 mlwydd oed. Yn ei farwolaeth collodd Lerpwl un o'i dinasyddion goreu a mwyaf parchus, a'r enwad Undodaidd drwy y wlad un o'i ffyddloniaid penaf. Nid oes ond odid genym un eglwys yn Nghymru na Lloegr nad ydyw ar ryw achlysur neu gilydd wedi profi ei garedigrwydd a'i haelioni. Y mae ei lafur dros addysg, a'i ymdrechion er lleddfu poenau ac ysgafnhau beichiau'r tlodion yn wybyddus, ac yr oedd yn tarddu oddiar ei awydd angerddol i wneud daioni. Yn y *British Weekly* gwneir tri chyfeiriad at ei fywyd a'i wasanaeth mawr i eraill, ond fel arfer ni sonir mai Undodwr oedd. Ond gwaeth na hyn. Yr ydym bellach wedi cael ein dysgu, os ydym wedi dysgu dim, i fod yn dawel pan yn cael ein hanwybyddu. Arweinir yr anwybodus i gredu mai perthyn i'r Crynwyr ydoedd, trwy ddyweyd mai Crynwr

oedd ei dad. Ond fel mae yn dygwydd, Undodwr o'r dechreu oedd ei dad, ac Undodwr oedd ei dadcu, ond ymddengys ei fod yn perthyn i'r Crynwyr yn moreu ei oes. Gellir dweyd am danynt yn ngeiriau'r Meistr, "Da, weision da, a ffyddlon."

## MARWGOFION.

IONAWR 2, yn 71 mlwydd oed, Elizabeth Thomas, gweddw y diweddar John Thomas, Rhydowen Cottage, a chyn hyny o Felin Talgarreg. Benyw dawel, ddiwyd, fu yr ymadawedig drwy ei hoes, yn meddwl mwy am gysur eraill nag am esmwythyd ei hun. Yr oedd wedi ei goddiweddyd gan gystudd er's blynyddau, ond dioddefodd yr oll yn hynod amyneddgar, ac yn wir, yn aml gyda siriol deb. Yn ystod yr holl amser cafodd driniaeth dyner a gofalus gan ei dwy ferch, y rhai ydynt yn awr mewn galar dwys ar ei hol. Cymerodd y gladdedigaeth le y dydd Llun canlynol yn mynwent newydd y Llwyn, pryd y cynhaliwyd y gwasanaeth arferol gan Mr. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Simon Jones.

CHWEFROR 9, yn 75 oed, bu farw Anne Thomas, priod Thomas Thomas, Gwehydd, Penpistyll. Yr oedd yr ymadawedig yn ddynes dawel, ddi-ymhongar, ac yn un ag iddi barch cyffredinol ar gyfrif ei didwylledd a'i hamcanion cywir. Bu am flynyddau yn aelod ffyddlon yn Capel-y-Fadfa, ac ar y Sul garw fel y Sul teg yr oedd yn wastad yn bresenol hyd nes y goddiweddwyd hi gan gystudd. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mercher canlynol yn Nghladdfa newydd Llwynrhydowen, a thraddodwyd y bregeth angladdol gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, oddiar Iago iv, 14. Bydded i aml belydryn oddiwrth Dad y goleuni i dywynu eto ar fywyd ein brawd sydd wedi ei adael ar ol yn ei alar a'i unigedd.

## COLOFN Y GOLYGWYR.

O ddiffyg gofod gorfodwyd gadael allan Adolygiad y Parch. George Eyre Evans ar "*Unitarian Students in Carmarthen College*"; "Atebiad X.Y.Z. i S.M.J.," a Marwgofion y rhai canlynol: John Davies, Mount Pleasant, ger Cribyn; William Davies, Ffosesgob; Emma Elizabeth Oliver, 19, Stuart Street, Aberdar; Jane Jones, Felinfach—cânt ymddangos yn ein nesaf.

*Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.*